# Y Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol

## Cofnodion Cryno: HWLG(3)-16-10: 20 Hydref 2010

Gellir gwylio'r cyfarfod hwn ar Senedd TV:

http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=cy_200000_20_10_2010&t=0

**Amser: 9.00 – 11.25**
**Lleolid: Ystafell Bwyllgora 1, y Senedd**

### Aelodau'r Cynulliad yn bresennol

Darren Millar, Gorllewin Clwyd (Cadeirydd)
Lorraine Barrett, De Caerdydd a Phenarth
Ann Jones, Dyffryn Clwyd
Helen Mary Jones, Llanelli
Dai Lloyd, Gorllewin De Cymru
Val Lloyd, Dwyrain Abertawe
Andrew R.T. Davies, Canol De Cymru
Peter Black, Gorllewin De Cymru
Irene James, Islwyn

### Tystion

Yr Athro Jonathan Bisson, Cyfarwyddwr Ymchwil a Datblygu, Ysgol Feddygaeth Prifysgol Caerdydd a Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (Eitem 2)
Dr Dafydd Alun Jones, Seiciatrydd Ymgynghorol (Eitem 3)
Lisa Bainbridge, Pennaeth Polisi Cyhoeddus, y Lleng Brydeinig Frenhinol (Eitem 4)
Janet Robins, Prif Weithredwr, y Grwp Orthodontig Cenedlaethol (Item 5)
Dr David Howells, Orthodontydd (Item 5)

### Staff y Pwyllgor

Marc Wyn Jones, Clerc
Sarita Marshall, Dirprwy Glerc
Steve Boyce, Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau (Eitemau 2, 3 a 4 yn unig)
Sarah Hatherley, Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau (Eitem 5 yn unig)

### Sesiwn breifat anffurfiol

Pleidleisiodd y Pwyllgor i benderfynu a ddylai'r Pwyllgor gynnal ymchwiliadau i'r defnydd a wneir o ymgynghorwyr yn y GIG a llywodraeth leol, a'r prosesau a ddefnyddir i gynnal adolygiadau yn y GIG. Cytunwyd y dylai'r ymchwiliad ar adolygiadau yn y GIG ystyried yn benodol yr adolygiad cyfredol a gynhelir yn ngogledd Cymru gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i lawdriniaeth gyffredinol frys a gwasanaethau mamolaeth ac iechyd plant ar draws y rhanbarth.

Pleidleisiodd Darren Millar, Andrew R.T. Davies, Val Lloyd, Lorraine Barrett, Ann Jones, Irene James, a Dai Lloyd o blaid y cynnig. Pleidleisiodd Peter Black yn erbyn y cynnig. Nid oedd Helen Mary Jones yn bresennol.

### Cyfarfod cyhoeddus

### Eitem 1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd Aelodau'r Pwyllgor a'r cyhoedd.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Veronica German. Roedd Peter Black yn dirprwyo ar ei rhan.

### Eitem 2: Ymchwiliad i Driniaeth ar gyfer Anhwylder Straen Wedi Trawma i Gyn-filwyr y Lluoedd Arfog: casglu tystiolaeth (9.00-9.40)

**Papur: HWLG(3)-16-10-p1**
**HWLG(3)-16-10 Atodiad**

2.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan yr Athro Bisson ynghylch gwneud diagnosis o anhwylder straen wedi trawma; cydgysylltu gwasanaethau; gwasanaethau ar gyfer y dyfodol; a chyn-filwyr a gaiff ddiagnosis ychwanegol.

### Eitem 3: Ymchwiliad i Driniaeth ar gyfer Anhwylder Straen Wedi Trawma i Gyn-filwyr y Lluoedd Arfog: casglu

### tystiolaeth (9.40-10.20)

**Papur: HWLG(3)-16-10-p2**

3.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth ar anhwylder straen wedi trawma gan Dr Dafydd Jones.

### Eitem 4: Ymchwiliad i Driniaeth ar gyfer Anhwylder Straen Wedi Trawma i Gyn-filwyr y Lluoedd Arfog: casglu tystiolaeth (10.20-11.00)

**Papur: HWLG(3)-16-10-p3**

4.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan y Lleng Brydeinig Frenhinol ar nifer yr achosion o anhwylder straen wedi trawma ymysg cyn-filwyr; gwasanaethau ar gyfer cyn-filwyr ag anhwylder straen wedi trawma; a chydgysylltu gwasanaethau.

### Eitem 5: Ymchwiliad i Wasanaethau Orthodontig yng Nghymru: casglu tystiolaeth (11.00-11.40)

**Papurau: HWLG(3)-16-10-p4**
**HWLG(3)-16-10-p5**

**5**.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Dr David Howells a'r Grwp Orthodontig Cenedlaethol ar nifer y therapyddion orthodontig cymwysedig sy'n bodoli; deintyddion sydd â diddordeb arbebnnig yn y maes orthodonteg; y gallu i ddarparu triniaeth orthodontig mewn gofal sylfaenol; a'r fodel dirprwyedig o ofal.

### 6. Papurau a nodwyd

Nododd y Pwyllgor y papur a ganlyn:

HWLG(3)-15-10-Cofnodion y cyfarfod blaenorol